
Hawdd ei Deall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Codi Ffioedd am Ofal a Chymorth Amhreswyl



## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl

Chwefror 2024

# Beth sydd yn y llyfryn yma?

Mae'n fersiwn **hawdd ei deall** o'r ddogfen ymgynghori **'Codi Ffioedd am Ofal a Chymorth Amhreswyl: cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol'**.


| | |
|---|---|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Y cefndir | 6 |
| Beth allai newid | 9 |
| Pam allai pethau newid | 11 |
| Sut byddai'r newid yn digwydd? | 12 |
| Asesiadau Effaith Integredig | 13 |
| Cwestiynau | 14 |
| Geiriau anodd | 22 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49786
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma




Dyma fersiwn hawdd ei deall gyda chwestiynau. Ond mae'n bosib y bydd angen i chi gael help i'w darllen o hyd. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bydd y **geiriau mewn ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch weld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei olygu ar dudalen 22.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru.**




I gael mwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at DyfodolGofalCymdeithasol@llyw.cymru

# Cyflwyniad



Rydyn ni am wneud rhywfaint o newidiadau i faint o arian allai fod angen i rai pobl ei dalu am **ofal amhreswyl**.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl o'r newidiadau yma.

Maen nhw'n cynnig newid y swm mwyaf o arian y byddai angen i rywun ei dalu bob wythnos.

Darllenwch drwy bob adran o'r ddogfen yma, ac atebwch y cwestiynau ar y diwedd.

# Anfonwch eich atebion aton ni erbyn 13 Mai 2024



Gallwch ymateb drwy un o'r ffyrdd isod:

- Llenwi'r ffurflen ar-lein




- Lawrlwytho a llenwi'r ffurflen, a'i hanfon drwy e-bost i: [DyfodolGofalCymdeithasol@llyw.cymru](mailto:DyfodolGofalCymdeithasol@llyw.cymru)



- Lawrlwytho a llenwi'r ffurflen, a'i hanfon drwy'r post i:



Y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

# Y cefndir



Mae **gofal amhreswyl** yn helpu pobl i aros yn eu cartref eu hunain pan fydd angen gofal cymdeithasol arnyn nhw.

Mae gwasanaethau **gofal amhreswyl** yn gallu cynnwys:



- Gofalwyr yn y cartref a phobl wrth law
- Gofal i ffwrdd o'r cartref mewn canolfan gofal dydd



- Offer a newidiadau i'r cartref er mwyn gwneud pethau'n haws
- Rhai pethau eraill sy'n helpu pobl i aros yn eu cartref




Pan fydd person yn cael gofal
yn y cartref gan ei **awdurdod lleol**,
fe fydd angen iddo dalu rhywfaint
o arian fel arfer.

Ar hyn o bryd, dyw pobl sy'n cael
gofal yn y cartref ddim yn talu
mwy na £100 yr wythnos.

Mae hyn os yw'r gofal yn cael
ei drefnu gan awdurdod lleol.

Dyw'r rheol yma ddim yn berthnasol
i blant.



Dyw'r rheol yma ddim yn berthnasol
i bobl mewn cartrefi gofal.

Mae rheolau ar wahân ar gyfer
talu am ofal mewn cartrefi gofal,
a dydyn ni ddim yn cynnig eu newid.

Ni fydd pawb sy'n cael **gofal
amhreswyl** yn talu £100 yr wythnos.
Dyma'r swm mwyaf mae'n bosib
gofyn i rywun ei dalu bob wythnos.




Awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar y swm. Maen nhw'n gwneud hyn drwy edrych ar faint o arian sydd gan rywun. Asesiad ariannol yw'r enw ar hyn.

Mae'r asesiad ariannol yn gwneud yn siŵr mai dim ond beth sy'n deg a beth maen nhw'n gallu ei fforddio fydd pobl sy'n cael **gofal amhreswyl** yn ei dalu.

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn dilyn y rheolau yma. Mae hyn er mwyn gwneud pethau'n fwy teg.

# Beth allai newid





Mae rheol sy'n dweud faint mae'n bosib gofyn i bobl ei dalu am **ofal amhreswyl.**

Rydyn ni'n meddwl newid y rheol yma.

Mae'n bosib y bydd y rheol newydd yn golygu bod rhaid i rai pobl dalu mwy na £100 yr wythnos am **ofal amhreswyl.**

Rydyn ni eisiau newid y swm i £120. Ond dydyn ni ddim wedi penderfynu ar y swm newydd eto.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl cyn penderfynu.
Ac rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y swm yn dal i fod yn deg a bod pobl yn dal i allu ei fforddio.




Dyna pam dydyn ni ddim am newid y rheolau eraill ar gyfer talu am ofal. Mae'r rheolau eraill yma yn helpu awdurdodau lleol i benderfynu faint mae pobl yn ei dalu bob wythnos am **ofal amhreswyl.**

Maen nhw hefyd yn gwneud yn siŵr bod y swm yn deg a bod pobl yn gallu ei fforddio.

Mae hyn yn golygu na fyddai angen i bawb dalu mwy, os bydd y rheol £100 yn newid.

Dyma rai syniadau posib ar gyfer y swm newydd:



- Dim mwy na £115 yr wythnos
- Dim mwy na £120 yr wythnos
- Dim mwy na £125 yr wythnos

Mae'n bosib y bydd angen inni newid y rheol eto yn y dyfodol.

# Pam allai pethau newid




Ar hyn o bryd, mae llawer o bobl yn poeni am arian.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn poeni am arian. Mae angen mwy o arian arnyn nhw i helpu i dalu am ofal cymdeithasol.

Os ydyn ni'n newid y rheol sy'n dweud faint o arian allai fod angen i bobl ei dalu bob wythnos, fe fyddwn ni'n helpu'r awdurdodau lleol i gael mwy o arian.

Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig iawn helpu pobl ac awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Ond mae angen i ni hefyd feddwl am y dyfodol, fel ein bod ni'n gallu dal ati i helpu.

Dyna pam rydyn ni'n meddwl newid y rheol. Ond dydyn ni ddim wedi penderfynu eto.




Rydyn ni eisiau eich help chi cyn penderfynu.

Fe fyddwch chi'n ein helpu i ddeall fydd newid y rheol £100 yn gwneud gwahaniaeth, nawr ac yn y dyfodol.

# Sut byddai'r newid yn digwydd?




Mae angen i ni wneud rhai newidiadau i'r gyfraith

**Is-ddeddfwriaeth** yw'r enw ar y math o gyfraith sydd angen ei newid.

Mae dau fath o is-ddeddfwriaeth y byddai angen i ni eu newid, sef:

- rhywbeth o'r enw **'Cod Ymarfer'** a
- rhywbeth o'r enw **'Rheoliadau'**.



Y prif newidiadau fyddai ychwanegu geiriau at y **Cod Ymarfer** sydd gyda ni eisoes.

Fe fyddai angen i ni hefyd newid y swm yn y **Rheoliadau**.

# Asesiadau Effaith Integredig



Rydyn ni eisiau gweld pa effeithiau mae pob un o'n syniadau yn gallu eu cael ar bobl Cymru.

Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni wedi dechrau Asesiad Effaith Integredig. Dyma ffordd o weld sut mae ein penderfyniadau a'n camau gweithredu yn gallu effeithio ar wahanol grwpiau o bobl.

Rydyn ni eisiau gweld beth mae pobl yn ei feddwl o beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma.

# Cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno y byddai newid y rheol £100 yn ein helpu i gefnogi pobl ac awdurdodau lleol, nawr ac yn y dyfodol?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Gallwch roi unrhyw syniadau eraill sydd gyda chi yn y blwch:

2. Os bydd y rheol £100 yn newid, i ba swm byddech chi’n ei newid?

☐ £115 ☐ £120 ☐ £125

Gallwch roi unrhyw syniadau eraill sydd gyda chi yn y blwch:

3. Os bydd y rheol £100 yn newid, fe fydd rhaid i ni newid rhywfaint o is-ddeddfwriaeth.

Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau y byddai angen i ni eu gwneud?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Gallwch roi unrhyw syniadau eraill sydd gyda chi yn y blwch:

**4. Rydyn ni'n eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl o'r Asesiad Effaith Integredig rydyn ni wedi'i ddechrau.**

A beth arall sydd angen i ni feddwl amdano wrth weithio arno.

Gallwch roi eich sylwadau yn y blwch:

5. Ydych chi'n meddwl y byddai unrhyw un o'n cynlluniau yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn siŵr

Gallwch roi unrhyw syniadau eraill sydd gyda chi yn y blwch:

6. Sut allwn ni sicrhau bod ein cynlluniau'n cael effaith dda ar y defnydd o'r Gymraeg?

Gallwch roi eich sylwadau yn y blwch:

7. Sut allwn ni sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg yn y cynlluniau yma?

Gallwch roi eich sylwadau yn y blwch:

8. Oes gyda chi unrhyw syniadau neu sylwadau eraill am y newid i'r rheol £100?

Oes unrhyw beth arall rydych chi am ei ychwanegu?

Gallwch roi eich sylwadau yn y blwch:

# Geiriau anodd

## Gofal amhreswyl

Mae hyn yn golygu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu darparu yng nghartref unigolyn, neu yn y gymuned.

**Dyw** gofal amhreswyl ddim yn golygu gofal sy'n cael ei ddarparu mewn cartref gofal neu ysbyty.

## Is-ddeddfwriaeth

Mae hyn yn golygu cyfreithiau sy'n cael eu creu gan Weinidogion (neu gyrff eraill) o dan bwerau a roddir iddyn nhw gan ddeddfwriaeth sylfaenol, fel arfer Deddfau Seneddol neu Ddeddfau gan Senedd Cymru.

## Cod Ymarfer

Mae Cod Ymarfer yn ddogfen sy'n nodi safonau ac arferion a ddisgwylir gan bobl, cyrff neu sefydliadau sy'n dod o dan Ddeddf gysylltiedig (math o ddeddfwriaeth sylfaenol).

## Rheoliadau

Dyma fath o is-ddeddfwriaeth.

Gweinidogion sy'n gwneud rheoliadau fel arfer.

Mae rheoliadau yn gorfodi camau sy'n ymwneud â sut mae'r brif gyfraith (neu'r ddeddfwriaeth sylfaenol) yn cael ei gweithredu.